


papur



priordy

***Yr oedd dyn yn trefnu gwledd fawr.
Gwahoddodd lawer o bobl.....Ond
dechreuodd pawb ymesgusodi yn unfryd ...***

Luc 14. 16-18

***Dewch mae'r wledd yn barod...Ond dyma
bob un ohonyn nhw yn dechrau hel esgusion***

beibl.net

**Dewiswyd gan Malcolm M Jones
Un o ffrindiau ffyddlon y Priordy
Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn**

**Rhifyn 342
PAPUR MAWRTH 2021**

Cenhinen neu Genhinen Bedr?

‘Gwisg genhinen yn dy gap a gwisg hi yn dy galon...’.

Le, rhyw gof plentyn sy gen i am wisgo cenhinen yn hytrach na chenhinen Bedr ar ddydd Gŵyl Dewi. Dyma oedd diwrnod yr eisteddfod ysgol, a chofiaf gamu i'r bws ysgol yn fore iawn ar ddydd yr eisteddfod a'r bws yn drewi o wynt cennin! Roedd tipyn o gystadleuaeth rhwng y bois yng nghefn y bws pwy oedd â'r genhinen hiraf neu fwyaf llydan, ac erbyn i'r bws dynnu i mewn i faes parcio Ysgol Gyfun Ystalyfera, roedd sawl cenhinen wedi lleihau o ran maint, tra bo'r oglau wedi cynyddu, gan fod rhai o'r bois wedi bwyta i mewn iddynt ar y daith!



Cenhinen

Ceir sôn yng ngherddi Taliesin yn y 6ed ganrif a hefyd yn Llyfr Coch Hergest yn y 13eg ganrif am rinweddau'r genhinen fel llysieuyn llesol. Fe'i gwisgwyd gan filwyr o Gymru ym Mrwydr Crecy, ac erbyn 1536, pan roiodd Harri VIII genhinen i'w ferch ar Fawrth y cyntaf, roedd cysylltiad eisoes rhwng y genhinen â Gŵyl Dewi. Mae'n bosibl bod lliwiau teuluol y Tuduriaid - gwyrdd a gwyn - yn tarddu o liwiau'r genhinen.

Cenhinen Bedr

Pryd ddaeth y genhinen Bedr yn symbol cenedlaethol felly? Wel, mabwysiadwyd y genhinen Bedr, neu'r daffodil, yn gymharol ddiweddar fel arwydd cenedlaethol. Yn ystod y 19eg ganrif, daeth yn flodyn poblogaidd, yn arbennig gan ferched. Enillodd y genhinen Bedr ei phlwyf wedi i'r Prif Weinidog David Lloyd George ei gwisgo i seremonïau arwisgo Tywysog Cymru yng Nghaernarfon ym 1911.



Mae ymddangosiad cynnar y genhinen Bedr yn y gwanwyn yn symbol o optimistiaeth natur. Wedi caledi'r gaeaf, mae gweld cenhinen Bedr yn gwthio drwy'r tir caled yn arwydd o obaith bod tywyllwch ac oerni'r gaeaf yn araf gilio, a goleuni a ffresni'r gwanwyn ar ddod.

Ac onid oes angen y gobaith hwnnw arnom eleni? Diolch am arwyddion o wanwyn mewn ffurf brechlyn wedi cyfnod o aeaf dychrynlyd o arw a chreulon dros y flwyddyn ddiwethaf.



Ie, cenhinen Bedr amdani i mi eleni – symbol o obaith.

O.N.

Un cwestiwn bach arall - dim ond er mwyn corddi'r dyfroedd!



Rygbi: Mae gan dimau rygbi'r tair gwlad arall sy'n rhan o Ynysoedd Prydain eu blodyn cenedlaethol ar eu crysau rygbi - Iwerddon: *Meillionnen*; Yr Alban: *Ysgallen*, a Lloegr: *Rhosyn*. Pam felly nad yw'r genhinen Bedr (sy'n llawer pertach na

meillionnen, ysgallen a rhosyn) ar grys rygbi tîm cenedlaethol Cymru? Neu hyd yn oed genhinen? Trafodwch!

Gweddiwn

**Boed i'r byd barhau i'n rhyfeddu,
I gariad barhau i'n synnu,
I fywyd barhau i'n hudo,
I ffydd barhau i'n cynnal,
A boed i Dduw barhau i deithio gyda ni,
Yn awr a hyd byth.**


Amen



DARLLENIAU

Mis Ionawr	Darlleniad
Wythnos 1	Ioan 2: 13-22
Wythnos 2 <i>Sul y Fam</i>	Salm 107: 1-3
Wythnos 3	Ioan 12: 20-33
Wythnos 4 <i>Sul y Blodau</i>	Marc 11: 1-11
Yr Wythnos Fawr Llun	Ioan 12: 1-11
Mawrth	Ioan 12: 20-36
Mercher	Ioan 13: 21-32
Iau Cablyd	Ioan 13: 1-17; 31b-36
Gwener y Groglith	Ioan 18: 1-19; 42
Sadwrn	Mathew 27: 5-66
Sul y Pasg	Luc 24: 13-49

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020



Byddwch wedi derbyn Adroddiad Blynyddol 2020 erbyn hyn a diolch i bawb a fu'n gyfriol amdano ac am ei ddosbarthu. Diolch yn arbennig i Adrian Evans, Trysorydd a'r Dr Huw Michael, Ysgrifennydd Ariannol, am eu gwaith caled ac i Huw am gysylltu â'r Wasg ar ein rhan.

GWASANAETH GŴYL DEWI 2021

Os cofiaf yn iawn Pwyllgor Eisteddfod Bro Myrddin o dan gadeiryddiaeth Norah Isaac a sefydlodd yr arferiad fod capeli ac eglwysi Cymraeg y dref yn dod ynghyd ar y Sul cyn Dydd Gŵyl Dewi i gynnal Gwasanaeth Gŵyl Dewi Tref Caerfyrddin. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal yn flynyddol mewn gwahanol eglwysi a chapeli, a thro Capel Y Priordy oedd hi y tro hwn. Ond yn wahanol i bob gwasanaeth cynt nid oedd hi'n bosibl dod ynghyd eleni oherwydd rheolau caeth y Cofid. Felly, fe drefnwyd gwasanaeth digidol arbennig gan roi cyfle i bawb yng Nghaerfyrddin, a hyd yn oed yng Nghymru a thros y byd cyfan i ymuno ynddo o'u cartrefi. Diolchwn i'r Parch Beti-Wyn James, sy'n Gaplan y Maer eleni hefyd, am baratoi gwasanaeth cofiadwy a chwbl deilwng i gofio am ein Nawddsant. Tybed faint ohonom sy'n sylweddoli ac yn gwerthfawrogi cymaint o waith ffilmio a recordio mae hyn yn ei olygu? Ond gyda'r canlyniad fod y gwasanaeth mor broffesiynol yn ei safon.



Y Parch Beti-Wyn James a'n croesawodd i'r oedfa gyda golygfa fyw o'r



cei ar lan yr afon Tywi yn gefndir iddi, gan egluro mai plant a phobl ifanc yr ofalaeth a chynrychiolwyr o gapeli ac eglwysi'r dref fyddai'n arwain y gwasanaeth. Priodol iawn oedd gweld Maer Tref Caerfyrddin, y **Cynghorydd Gareth John**, yn darllen a chyflwyno'r weddi agoriadol o flaen y castell cyn i ni glywed emyn cyfoethog Lewis Valentine '*Dros Gymru'n Gwlad*' yn cael ei chanu i gefndir o olygfeydd godidog o dref Caerfyrddin. Hyn i gyd yn creu naws hyfryd a bendithiol iawn ar gyfer y gwasanaeth ar ei hyd.

Y plant yn eu tro gyflwynodd i ni wedyn hanes bywyd Dewi Sant gan ein hatgoffa pam y daeth ef yn Nawddsant ein cenedl. Mor braf oedd clywed pob un yn llefaru mor glir ac mor ddeallus. Roedd y gân '*Gwisg*

Genhinen’ i ddilyn mor addas ac mor addysgiadol ac yn ein hatgoffa y dylsem wisgo’r genhinen trwy’r flwyddyn gron yn ein gweithgareddau a’i gwisgo hefyd gyda balchder yn ein calonnau.

Rhaid diolch i’r Parch Beti-Wyn James am ei myfyrdod pwrpasol ac amserol wedyn. Soniodd am bregeth fawr Dewi Sant a sut yr ydym ni yn dal i atgoffa ein hunain o’i eiriau sy’n dod i’r cof hyd yn oed ynghanol yr argyfwng presennol, a bod gwahaniaeth rhwng llawenydd a hapusrwydd mewn perthynas ag Ysbryd Duw – mae llawenydd yn y galon yn aros. Dyna mae Dewi yn ein hatgoffa ohono - bod llawenydd yn Nuw. Mae angen y ffydd arnom ni heddiw i wynebu’r hyn a ddaw atom yn y dyfodol. Ry ni wedi gweld ‘*y pethau bychain*’ sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae cymaint ohonom ni wedi dod yn ffrindiau digidol, a hynny wedi cyfoethogi’n bywydau.

Diolch i Beti Wyn am ei neges Gristnogol gref unwaith eto.

Yn dilyn yr emyn ‘*Cofia’n gwlad benllywydd tirion*’ cafwyd gweddïau gan y gwahanol gynrychiolwyr o eglwysi a chapeli’r dref. Roedd pob gweddi eto’n berthnasol iawn gyda’n diolch am ein cenedl a’n pobl yn thema amlwg. Mor bwrpasol hefyd oedd dangos clipiau o wahanol olygfeydd yn ystod y gweddïau hyn - y cyfan yn ychwanegu at gynnwys y gweddïau cyn cydweddïo Gweddi’r Arglwydd.

Ytu allan i gastell Caerfyrddin y gwnaeth Beti-Wyn roi’r fendith cyn yr emyn olaf ‘*Air Disglair Duw*’ eto i gefndir o olygfeydd gwych iawn o’r dref gan gynnwys golygfa o’r orymdaith Gŵyl Ddewi gyntaf honno. Roedd yr emyn hwn yn glo effeithiol iawn i wasanaeth Gŵyl Dewi cofiadwy 2021.



CWRDD GWEDDI DYDD GŴYL DEWI

Braf oedd croesawu 30 o gyfeillion o wahanol gapeli ac eglwysi’r dref a’r cylch i’n Cwrdd Gweddi rhithiol ar Fawrth y Cyntaf. Diolch i bawb am eu presenoldeb, i’r rhai a gymerodd ran ac i Beti-Wyn am drefnu’r cyfan.



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

Caerwen ac Alan Gibbard

Llangynnwr

David a Hefina Lloyd

Dolgwili

Irene Williams

Llangynnwr

Eirlys Davies

Llangynnwr

John a Carys Green

Tre Ioan

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

'THE WORST OF TIMES AND THE BEST OF TIMES'

Mike Shephard

Caplan ar gyfer y Gwasanaeth Ambiwylans

Cagliad o erthyglau yn ceisio negeseuon cadarnhaol yng nghanol

sefyllfa dywyll y pandemig

Ar gael yn Gymraeg a Saesneg – o Ebrill / Mai 2021 ymlaen

Pris: £12 + Cludiant

Unrhyw elw at elusennau ambiwlans

Archebion a gwybodaeth bellach: shephard49@btinternet.com

NOS IAU CABLYD - 7 O'R GLOCH

OEDFA GYMUN DROS ZOOM

gyda'r

Parchedig Peter Cutts

Croeso cynnes i bawb

Byddwch yn derbyn y Ddolen Zoom

mewn da bryd



YR YSGOL SUL AR ZOOM



PWY YW'R NAWDDSANT?



Rhowch gynnig arni!!

1	Pwy yw nawddsant anifeiliaid?	
2	Pwy yw nawddsant meddygon?	
3	Pwy yw nawddsant y rhynggrwyd?	
4	Pwy yw nawddsant cariadon?	
5	Pwy yw nawddsant Ffrainc?	
6	Pwy yw nawddsant Caerleon?	
7	Pwy yw nawddsant teithwyr?	
8	Pwy yw nawddsant chwaraeon?	
9	Pwy yw nawddsant cerddoriaeth?	
10	Pwy yw nawddsant Casnewydd?	

Atebion ar Dudalen 43


GWERTH EI DDARLLEN

LLYFR diddorol iawn yw *Depicting St David* gan y Dr Martin Crampin a gyhoeddwyd y llynedd gan Wasg y Lolfa. Mae'r gyfrol yn trafod y gwahanol ffyrdd y cafodd Dewi Sant ei ddarlunio dros y canrifoedd.




Yr awdur yw **Martin Crampin**, Cymrawd Ymchwil yng

Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ac arlunydd a ffotograffydd talentog.



Mae llawer o'r wybodaeth sydd gennym am Ddewi yn seiliedig ar *Buchedd Dewi* gan Rhygyfarch ap Sulien a ysgrifennwyd tua'r flwyddyn 1094. Gan i waith Rhygyfarch gael ei ysgrifennu bron i 500 mlynedd ar ôl i Ddewi farw, mae amheuaeth pa mor ddibynadwy yw'r hanes.



Mae **Gerald Morgan** yn ei gyfrol *Ar Drywydd Dewi Sant* yn esbonio wedyn nad bywgraffiad ohono sydd yn *Buchedd Dewi* mewn gwirionedd. Meddai:



'Roedd Rhygyfarch yn ysgrifennu yn nhraddodiad y fuchedd, oedd eisoes yn gyfarwydd ar draws Ewrop. Sail patrwm

bucheddau'r seintiau oedd yr Efengylau, a gallwn weld hynny'n glir yn nhestun Rhygyfarch... mae gwyrthiau yn frith trwy'r Efengylau a'r Fuchedd fel ei gilydd, a'r ddau'n diweddu gydag esgyniad i'r nefoedd.'

Mae delweddau o Ddewi i'w cael mewn gwahanol gyfryngau a hefyd mewn ystod o wahanol ffyrdd, ond gan amlaf mewn gwydr lliw mewn eglwysi ledled Cymru a thu hwnt.

Gellir tybio fod dychymyg llawer o'r artistiaid wedi bod ar waith wrth eu ffurfio, yn enwedig o gofio fod cymaint o ofod rhwng dyddiau Dewi a thestun Rhygyfarch sy'n codi anawsterau o ran rhagdybio unrhyw beth pendant ynghylch ei fywyd. Efallai i'r dychymyg hwnnw fod ar waith hefyd yn nhestun Rhygyfarch ei hunan! Yn ei amser e roedd y Normaniaid yn dylifo dros dde Cymru a phryderon y byddai rhaid i Dyddewi ymostwng i awdurdod esgob Caergaint. Does ryfedd felly fod yn hanes Dewi nifer helaeth o chwedlau a dueddai i'w fawrygu a phwysleisio annibyniaeth yr Eglwys yng Nghymru.

Mae rhai cannoedd o'r ffenestri gwydr hyn, llawer ohonynt ymhell oddi wrth Dyddewi, er bod y rhan fwyaf yn ne Cymru. Mae rhai o'r eglwysi ble ceir y ffenestri wedi cau bellach ac ansicrwydd ynghylch eu dyfodol, ond bod rhai o'r ffenestri a oedd ynddynt wedi cael eu hailosod mewn mannau eraill.

Mae amrywiaeth y delweddau'n drawiadol. Gwelwn Dewi Sant fel dyn ifanc a hen ddyn, mewn regalia esgobol ac fel mynach, wrth ei hunan neu gyda seintiau eraill ac mewn lluniau o olygfeydd ei fywyd.

Meddai **Jon Gower**:



Y llyfr hwn yw'r cyntaf i astudio'r ddelweddaeth hon, ac nid yw'r mwyafrif o'r 170 delwedd erioed wedi'u cyhoeddi o'r artistiaid a'r stiwdios a'u gwnaeth, hanes lleol a straeon sy'n gysylltiedig â Dewi Sant.

Gobaith yr awdur yw y bydd pobl Cymru'n dod yn fwy cyfarwydd â'r delweddau. Bu wrthi'n eu cofnodi ac mae'n dal i ddod o hyd i ragor.

Efallai'n wir y byddai llawlyfr yn well disgrifiad o'r gyfrol – llawlyfr a fyddai'n ganllaw defnyddiol ar gyfer trefnu cyfres o deithiau i weld rhai o'r delweddau trawiadol hyn a dysgu mwy amdanynt.

RHAI ENGHREIFFTIAU O'R DELWEDDAU SYDD YN Y GYFROL



Eglwys Sant Elli, Llanelli

1911

**Dyluniwyd gan
Edwarne-Jones**



Robert Newbery c.1905

**Eglwys St Catherine,
Pontypridd**



**Frank Roper, Dewi Sant
1978**

**Eglwys y Santes Fair,
Talbenni, Sir Benfro**



John Petts, Dewi Sant 1986

**Eglwys Sant Cynfelin
Caerau**

**Dewi Sant (Cerflun)
Eglwys Sant Ioan,
Caerfyrddin 1921**

Gwrthgefn allor



GWEITHGARWCH AMRYWIOL YR YSGOL SUL



Trist oedd clywed am golli'r canwr **Gerry Marsen**, prif leisydd *Gerry and the Pacemakers*, ar 3 Ionawr 2021. Mae'r band yn fwyaf adnabyddus am y gân *You'll Never Walk Alone*, a gyrhaeddodd rhif 1 y siart Prydeinig ym 1963.



Yn rhyfedd ddigon, daeth y gân i frig y



siartiau unwaith eto'n ddiweddar ond gyda **Michael Ball** yn uno â'r **Captain Tom Moore** y tro hwn i godi arian ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd. Yn ystod mis Chwefror collwyd y Captain Moore a chwaraewyd y fersiwn hon o'r gân yn ei angladd.



Mae'r gân yn anthem i nifer o dimau pêl-droed, gan gynnwys Celtic, Borussia Dortmund yn yr Almaen ac FC Twente yn yr Iseldiroedd – ond yn fwyaf arbennig i Glwb Pêl-droed Lerpwl, y ddinas lle ganwyd Marsden ym 1942.

Ym Mhapur Priordy rai blynyddoedd yn ôl buon yn trafod tarddiad ac arwyddocâd *You'll Never Walk alone*' Mae gwreiddiau'r gân, yng nghynhyrchiad *Carousel*, gan Rodgers and Hammerstein ym 1945.



Mae'n debyg mai gŵr o Borthmadog, Eurwyn Price neu 'Dino Grant' o'r grŵp *Dino and the Wildfires* oedd y cyntaf i greu trefniant o'r gân ar gyfer band trydanol.

I gefnogwyr Clwb Pêl-droed Lerpwl, mae'r gân yn golygu'r holl fyd. Mae'n

rhan annatod ohonynt. A daeth i olygu cymaint yn fwy iddynt ar ôl Trychineb Hillsborough ym mis Ebrill 1989 pan laddwyd 96 ac anafwyd 766 o gefnogwyr Lerpwl.

Mae llawer yn gofyn a oes naws grefyddol i *You'll Never Walk Alone*.

Wel, cynhwysodd **Elvis**

Presley'r gân yn ei gasgliad o ganeuon gosbel. I lawer mae hi'n bendant yn gân grefyddol ac yn dweud wrthym yn gwbl glir ac eglur bod Duw (er nad oes sôn amdano yn y gân) gyda ni o hyd, - hyd yn oed pan fyddwn yn meddwl ein bod yn wynebu problemau ar ein pen ein hunain.



Un a ysbrydolwyd gan *You'll never Walk alone* yw ein Dan Evans ni. A phriodol ym mlwyddyn colli Gerry Marsden yw ailgyhoeddi cerdd Dan yn ein Papur. Dyw Dan ddim wedi mwynhau'r iechyd gorau'n ddiweddar ac anfonwn ein cofion cynnes ato gan ddiolch iddo am ei gerdd hyfryd.

Rydyn ni yng nghanol argyfwng Covid-19 ar hyn o bryd a gwyddom yn sicr pwy sydd mewn golwg gan Dan pan mae'n cyfeirio at yr un sydd wrth law hyd derfyn y dydd i ofalu amdanom beth bynnag yw'r storm:

Wedi rhodio drwy'r storm

I fyny bo'r nod,

Nac ofnwch y tywyllwch

Neu arall sy'i ddod.

Ar derfyn pob storm

Daw heulwen i'r nen,

A chaniad ehedydd

I'n swyno uwchben.

Cerddwch ymlaen trwy'r gwynt

A thrwy'r glaw,

Er chwalu gobeithion, a phopeth a ddaw,

Ymlaen, ymlaen, mewn gobaith a ffydd

Mi fyddaf wrth law hyd derfyn y dydd.



Rheswm Malcolm M Jones dros ddewis Dameg y Wledd Fawr.

Dewch mae'r wledd yn barod... Ond dyma bob un ohonyn nhw un dechrau hel esgusion...."

Yr Esgusodion:

"... Rwyf wedi prynu cae, ac mae'n rhaid imi fynd allan i gael golwg arno... Rwyf wedi prynu pum pâr o ychen, rwyf ar fy ffordd i roi prawf arnynt...Rwyf newydd briodi, ac am hynny ni allaf ddod..."



Stori gan yr Iesu yw hon fel y trafodwyd hi yn Llandysul yn yr 1960au (pan oedd Eurwen a minnau yn byw yno) gan ŵr a fu'n aelod o Wasanaeth Gudd y Fyddin a oedd nid yn unig yn rhugl yn yr iaith Siapanaeg ond hefyd yn un a hebryngodd **yr Ymerawdwr Hirohito** i ymweld â llanast y bomb atomig yn Hiroshima ym 1945. (Dioddefodd o effaith y pelydrau weddill ei oes.)

Gall stori wrth gwrs, fel y dywedodd, ddiddanu, ond hefyd ysgogi myfyrdod. Sail yr esgusodion uchod, meddai, yw hunaniaeth. Safbwynt yr hunan - 'Rwyf'- yw'r man cychwyn bob tro a hynny'n groes i ddysgeidiaeth Gristnogol. Wrth gwrs, gallent ynddynt eu hunain, fel y gwelwch, fod yn rhai clodwiw. Ond mae gwneud defnydd ohonynt er mwyn creu esgusion yn cadarnhau hefyd fateroldeb sy'n gallu bod yn gymaint o ran o fywyd â hunanoldeb. Wrth gwrs, o'i wirfodd mae dyn - a grëwyd yn rhydd - yn rhydd i ymgymryd o'r wledd, os yw'n dewis. Yn olaf, os oes gofyn heddiw, *'pa rôl felly a bennwyd i'r Eglwys?'* clywsom fel hyn - *"Gwyn ei fyd yr hwn a gaiff gyfran yn y wledd yn nheyrnas Duw"*.

Y PREGETHWR a drafododd y stori hon oedd mab i Reithor Penboyr, sef Y Parchedig Raymond Renowden, a fu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llandysul, ac ennill Gadd Dosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol Llambled mewn Diwinyddiaeth cyn mynychu Caergrawnt. Wedi'r Rhyfel cafodd ei ordeinio ym 1952. Dychwelodd i Llambled ym 1955 lle bu'n ddarlithydd clodwiw ac wedyn yn Bennaeth Diwinyddiaeth tan symud i Lanelwy fel Deon 1971-1993.


Carys Morgans, Swyddog Cyswllt y Gefeillio
yn cyflwyno...



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

PARTI A GIG

MAE Ysgol Sul Salem yn cyfarfod bob bore Sul am 11:30 dros Zoom ers Gwanwyn 2020. Fel rheol, byddwn ni'n cynnal parti crempog ar Ddydd Mawrth Ynyd yn y festri, ond roedd rhaid meddwl am rywbeth gwahanol eleni. Felly penderfynwyd cynnal Parti a Gig Hanner Tymor dros Zoom ar nos Wener olaf hanner tymor. Roedd Elen Medi - arolygydd yr Ysgol Sul - a Mererid wedi trefnu gemau. Ond uchafbwynt y parti oedd gig ecsgliwsif gan Alis Glyn a Gwydion. Mae Alis yn



cyfansoddi a canu ei chaneuon ei hun wrth y piano a Gwydion, sy'n aelod o Fand Maes Parcio fel arfer, ond yn ystod y cyfnod hwn yn gorfod canu ar ei ben ei hun - wel efo'i gitar! Roedd yn awr hwyliog dros ben - a phawb wedi mwynhau!

CYNGOR EGLWYSI

Dan adain y Cyngor Eglwysi cynhelir Oedfa Undebol ar y trydydd Sul o Chwefror bob blwyddyn - Sul Cymdeithas. Eleni y siaradwr gwadd oedd Dr. Gwilym Siôn Pritchard sy'n feddyg teulu ac yn flaenor yng Nghapel y Groes, Pen-y-Groes.

MAE'R Cyngor Eglwysi hefyd yn cynnal Cyfarfodydd y Grawys 2021, sef cyfres o fyfyrddodau ar Gymeriadau'r Pasg, a gwasanaeth ar Nos Iau Cablyd dan ofal y Parchedig Dylan Williams.

**CYNGOR EGLWYSI
CAERNARFON**

**CYFARFODYDD Y
GRAWYS 2021
MYFYRDODAU
AR
CYMERIADAU'R
PASG**

Dyddiad	Thema	Arwain
Mer. 24/2 10yb	Y Geragedd	Seilo
Maw. 2/3 8yb	Y Disgyblion	Caersalem
Maw. 9/3 10yb	Yr Arweinydd Crefyddol	Salem
Mer. 17/3 3yp	Yr Arweinydd Gwleidyddol	Noddfa
Mer. 24/3 Maes 10yb	Iesu (cyfarfod Saesneg)	Capel y

Gwasanaeth Nos Iau Cablyd 1/4
7:00 dan ofal Parch. Dylan Williams

**MANLIDY
CYSYLLTU AR
CYFER Y
CYFARFODYDD I
GYB:**

Rhif y cyfarfodydd:
899 6740 5728
Cod ymuno:
1588

Mae modd ymuno
dros y ffon hefyd.
Gofynnwch i'ch
arweinydd am y
manlithon cysylltu

A WYDDOCH CHI?
FAINT O EGLWYSI, AELODAU,
PLANT A PHOBL IFAINC
SY GENNYM?
CRYNODEB O YSTADEGAU'R EGLWYSI
FESUL CYFUNDEB YN 2019

RHIF	CYFUNDEB	EGLWYSI	AELODAU	PLANT A PHOBL IFAINC
1	Llyn ac Eifionydd	21	688	113
2	Gogledd Arfon	22	987	148
3	Dwyrain Dinbych a Fflint	8	170	16
4	Gorllewin Dinbych a Fflint	8	206	34
5	Maldwyn	21	516	46
6	Meirion	27	1006	161
7	Môn	24	599	76
8	Ceredigion	52	3111	290
9	Gorllewin Caerfyrddin	35	2417	272
10	Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog	46	3050	338
11	Gogledd Morgannwg a Mynwy	10	115	10
12	Dwyrain Morgannwg	20	1401	337
13	Gorllewin Morgannwg	4 23	1916	106
14	Penfro	28	1208	59
15	Llundain	5	13 25	2
2018	CYFANSWM	369	17,522	2,008

Ffynhonnell

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg - Tanysgrifiadau a Chyfrifon
Tŷ John Penri, Abertawe

PANED A SGWRS
Bore Mercher, 10 Mawrth 2021 am 11 o'r gloch

PANED CYN NOSWYLIO

Mae'r dydd yn fyr iawn dros fisoedd y gaeaf ac oriau hir o dywyllwch. Mae'r nos yn hir. Beth am ynuno â ni am sgwrs fer a phaned cyn noswyllo?

Nos Fercher 17 Mawrth 2021 am 8 yr hwyr



Byddwch yn derbyn y dolenni ar gyfer y cyfarfodydd hyn mewn da bryd



CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 10 Mawrth 2021 am 7 ar Zoom

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

**CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA A BLAENORIAID
BANCYFELIN**

**Nos Fercher 24 Mawrth 2021 am 7
Naill ai yng Nghana neu dros Zoom**

MAE'R CYFRIFIAD AR GYRRAEDD!

**Diwrnod y cyfrifiad yw
Dydd Sul, 21 Mawrth 2021**



Mae'r cyfrifiad yn casglu gwybodaeth hanfodol er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau fel trafnidiaeth, addysg a gofal iechyd. Rhaid i chi gwblhau'r cyfrifiad yn ôl y gyfraith. Cadwch lygad am eich pecyn gwahoddiad yn y post. Bydd yn dangos i chi sut i gwblhau eich y cyfrifiad. Am ragor o wybodaeth - ewch i **www.cyfrifiad.gov.ukctc**

GWEITHGARWCH AMRYWIOL YR YSGOL SUL



Ifanc@Priordy

Ysgol Sul

Rydym yn dal i gwrdd dros Zoom! Dim sôn am ddychwelyd i'r Capel ar hyn o bryd. Ond gwyliwch y gofod!




DIOLCH!

Diolch i bawb sydd wedi bod yn dod i'r Ysgol Sul. Rydym wedi cael lot o hwyl dros Zoom. Mae detholiad o luniau o'r Ysgol Sul mewn man arall yn y papur hwn.

CARDIAU

Mae nifer ohonoch wedi creu Cardiau cyfarch hyfryd ac wedi eu hanfon at aelodau'r capel sy'n hunanynysu. Da iawn chi! Lluniau hyfryd i'w gweld yn y papur hwn. Pawb yn gwerthfawrogi'ch gwaith yn fawr.



Mae
angen
lliw ar
faner
Cymru!
Fedrwch
chi
helpu?

Tan y tro
nesaf,

Cadwch yn ddiogel ac yn iach. **Beti-Wyn**

Dathlu gyda Dewi Sant

W	C	C	M	E	P	R	E	G	E	T	H	U	E
E	E	S	Y	G	B	T	N	D	D	Y	F	F	N
D	N	A	N	E	R	E	N	A	B	D	C	I	U
A	H	D	A	N	E	M	O	L	O	C	A	E	R
L	I	O	C	A	N	T	H	E	M	H	G	G	M
L	N	F	H	D	E	W	I	P	C	O	L	L	Y
I	E	D	C	L	E	D	A	Y	R	W	L	W	C
N	N	D	D	R	A	W	B	Y	E	T	A	Y	E
E	B	E	E	I	L	U	M	Y	G	N	W	S	C
B	E	T	C	I	A	D	E	E	O	N	E	I	E
M	D	S	N	H	A	S	A	N	C	I	N	R	R
E	R	I	T	I	A	A	A	L	W	A	C	E	N
N	W	E	T	C	E	N	I	N	I	O	I	O	Y
S	P	H	C	E	L	T	I	A	I	D	E	L	W

BANER, SANT, DALLINEB, ANTHEM,
PREGETHU, EISTEDDFOD, CAWL, CENHINEN
BEDR, CERNYW, EGLWYSI, NON, BANER,
FFYDD, MYNACH, GORYMDAITH,
PAWLINIWS, COLOMEN, CYMRU, CELTIAID,
LLAWEN, DEWI

GWEITHGARWCH AMRYWIOL YR YSGOL SUL



Priordy 150



Yn 1971, hanner can mlynedd yn ôl, fe gyhoeddwyd cyfrol i ddathlu can mlynedd o fywyd

eglwys y Priordy yma yng Nghaerfyrddin. Roedd hi'n gyfrol wybodus a difyr a grewyd gan John Davies, Beti Hughes a T. James Jones, oedd yn crynhoi'r can mlynedd yn y modd mwyaf effeithol. Canrif! Dychmygwch!

Wel, nawr yn 2021, rydyn ni'n dathlu canrif a *hanner* o fywyd eglwysig yn y Priordy - cant a phum deg o flynyddoedd. Nawr, does dim un ohonom yn ddigon hen i gofio cychwyn yr achos ar Heol y Prior yn 1871, a diolch byth am hynny, ond mae'r pen-blwydd hwn yn achos dathlu go iawn i ni.

150

Ac felly, er mwyn nodi'r garreg filltir hynod hon, byddwn yn cyhoeddi cyfrol fechan fydd yn gofnod ac yn ddathliad o'n hamser ni fel eglwys ar Heol y Prior, Caerfyrddin. Mi gawn hanes dechreuadau'r Priordy o safle digon syml ger Tanerdy mewn rhan ddiwydiannol o dref Caerfyrddin, rhan reit ddistadl o'r dref mewn gwirionedd, hyd at heddiw. Bydd y penodau'n trafod cyfnodau gwahanol ac agweddau gwahanol ar waith yr eglwys. Cawn dipyn o hanes pob gweinidog a fu yn y Priordy o D. Cadvan Jones, y gweinidog cyntaf, hyd at ein Beti-Wyn bresennol. Caiff nifer o luniau o sawl cyfnod eu cynnwys yn y gyfrol hefyd fydd yn gofnod gweledol

ardderchog o'n hanes yn ogystal â bod yn gofnod o ffasiynau'r holl flynyddoedd a fu.

Rydym ni'n deulu yn y Priordy, mae pawb yn perthyn i'w gilydd drwy ffydd ac mae hynny'n beth i fod yn falch iawn ohono. Bydd y gyfrol hyfryd hon yn ffordd o'n hatgoffa ni o'n hanes ac o bwy ydym ni, ac yn gyfle i ni feddwl am y dyfodol hefyd. Ymlaen â ni i'r 150 mlynedd nesaf felly!

BYDD Y GYFROL ar gael i'w phrynu yn hydref 2021.



Bu 11 o aelodau Câr Meibion Caerfyrddin yn cymryd rhan yng nghynhyrchiad y ffilm "Save Our Cinema" yn y Lyric yng Nghaerfyrddin ar y 10-11 Chwefror. Buon nhw'n helpu gyda'r canu ac yn chwyddo maint y gynulleidfa yn y Lyric. Dyma nhw'n sefyll y tu fas i'r Lyric Roedd dau o aelodau'r Priordy yn eu plith! Pwy ydyn nhw tybed?

WYT TI'N COFIO?

Hanner can mlynedd yn ôl, ar 15 Chwefror 1971, gwelwyd newid mawr yn y byd ariannol. Newidiodd arian breiniol y Deyrnas Unedig i ddull o ddefnyddio unedau o ddeg. Dywedodd un wrth y Tŷ Cyffredin ar y pryd: *Mae pob person sy'n edrych ar ei ddeg bys yn gweld dadl dros ddefnyddio'r dull hwn a thystiolaeth o'i ymarferoldeb!*

Cyn y diwrnod mawr hwnnw ym 1971 roedd 20 swllt yn ffurfio punt a phob swllt yn gyfwerth â 12 ceiniog. Roedd hynny'n golygu bod 240 ceiniog mewn punt! Roedd y dull newydd yn golygu rhifo a chyfrif fesul deg a chant.



Mae John Meredith, un o'n haelodau, yn wŷr hynod o brofiadol ym myd bancio a bu'n dal nifer o swyddi uchel yn y maes yn ystod ei yrfa. A dyma fanteisio ar y cyfle i ofyn cwestiwn neu ddau iddo am y newid mawr yn y saithdegau...

PP: I ddechrau John, ydych chi'n cofio ble roeddech chi adeg y newid?

JM: Wel, roeddwn yn gweithio ar y pryd fel is-reolwr yn Swyddfa Ranbarthol Banc Lloyds yn Heol y Santes Fair yng Nghaerdydd. Roeddwn felly yn y 'front line' pan oedd y gwaith mawr yn cael ei wneud yn y canghennau. Er diddordeb, roedd Mair a fi a Siân a Huw, y plant, yn byw yn Heol Brandreth, Cyncoed, a'n cymdogion drws nesaf oedd Mr Dan Evans a'i wraig Phyllis a'r ddau fab. Roedden nhw'n cadw llygad barcud arnom ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn ymddwyn yn barchus!? Amser hapus hefyd i Siân a Huw yn Ysgol Bryntaf. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae Dan yn un o aelodau hynaf y Priordy a'r tri ohonom wedi dod yn ôl i Sir Gâr ac yn byw yn yr un adeilad, sef Hafan Tywi.

PP: Mae'n siŵr bod y system newydd wedi golygu llawer o addasu ym mynd y bancio?


JM: Roedd llawer iawn o waith i'w wneud yn y canghennau a bu rhaid i'r staff a'r cwsmeriaid addasu tipyn wrth newid o'r hen i'r newydd. Caewyd y canghennau am bedwar niwrnod er mwyn rhoi amser i'r staff baratoi gogyfer â'r drefn newydd oherwydd roedd eisiau newid y papurau ysgrifennu'n llwyr, addasu'r peiriannau a'r systemau a newid y ffigurau i gyd o'r hen £ s d i'r ffigurau newydd. £P (can ceiniog i'r bunt), E.e 10/- = 50c; 2/- = 10c a 1/- = 5c).



Cefais fy mhenodi'n rheolwr ar gangen Y Bont-faen ym mis Mehefin 1971. Felly, fel y gwelwch, roeddem wedi osgoi'r gwaith mawr oedd yn cymryd lle yn y canghennau ar ddechrau'r flwyddyn honno!!

Roedd llawer o'r staff wedi gorfod gweithio'n hwyr iawn, mynd ar gyrsiau a hefyd fynd o amgylch i siarad â chwsmeriaid mewn gwahanol gymdeithasau. Gwaith pwysig iawn wedyn oedd trefnu gyda Banc Lloegr fod digon o'r arian newydd ar gael yn y canghennau cyn iddyn nhw ailagor ar 15 Chwefror 1871.

Bu llawer o gyhoeddi / hysbysebu ynglŷn â'r newid, yn cynnwys record newydd, cân **Max Bygraves**, dan yr enw 'Decimalisation'!! Cafodd



llawer iawn o bamffledi eu hargraffu hefyd ar gyfer y cwsmeriaid a'r cyhoedd. Rhaid cofio yn ogystal fod stampiau'r Post Brenhinol wedi newid ar yr un pryd.

PP: Oedd y newid er gwell yn eich barn chi?


JM: Er bod yna filoedd ar filoedd o'r boblogaeth yn erbyn y newid roedd y gwleidyddion fel Harold Wilson, Jim Callaghan, ac Edward Heath yn benderfynol o gael system arian fwy tebyg i'r hyn

oedd yn bodoli yn rhai o wledydd eraill Ewrop, ee. Ffrainc (100 Centimes - 1 Ffranc; Rwsia (100 Kopes - 1 Roble) ac yna Prydain Fawr (100 Ceiniog - 1 Bunt). Dim sôn am Brexit y pryd hwnnw! Gyda llaw, chafodd y boblogaeth ddim llawer o gyfle i fynegi barn ynglŷn â'r peth a dim siawns i bleidleisio. Er hynny, rwy'n dal i feddwl fod y newid wedi bod am y gorau'n fasnachol ac ar gyfer twristiaeth, yn enwedig ar ôl i'r Euro ddod i fodolaeth yn 1999. Roedd pethau'n fwy rhwydd i'w

trafod ac yn llai cymhleth.

PP: Roedd tipyn o gwyno ar y pryd bod prisiau wedi codi o ganlyniad i'r newid, on'd oedd?!

JM: Rwy'n cytuno fod yna lawer o gwyno ond rhaid cofio fod chwyddiant ar y pryd tua 9.4%. Efallai fod yna dipyn o 'rownding up' wedi digwydd hefyd!!
Digon tebyg!!



PP: Wel John, mae'n ymddangos fel pe baem mewn cyfnod o newid mawr unwaith eto a bod talu drwy gardiau plastig yn dod yn fwy poblogaidd na thalu drwy arian parod. Beth ych chi'n feddwl o hynny 'te?



JM: Mae'r cardiau plastig wedi dod yn boblogaidd iawn ac maen nhw yma i aros. Mae rhai pobl yn cael anhawster i gyfarwyddo â'r holl ddefnydd ohonyn nhw (dw i'n un!!) ond rhaid dal ati! Os oes yna bryder neu ddiffyg hyder cofiwch ofyn i staff y banc egluro pethau i chi. Dyma'r dyfodol, mae arna i ofn, ond dyfal donc a dyrr y garreg.

Gair o rybudd – Rwy'n teimlo'n anobeithiol pan dw i'n clywed am bobl sydd wedi rhoi eu cardiau a'u rhif PIN i rywun arall i weithredu ar eu rhan. Mae hyn yn beryglus dros ben ac mae yna bobl sydd wedi colli llawer iawn o arian oherwydd yr arferiad annoeth yma. Rwy wedi sylwi hefyd fod llawer yn defnyddio 'contactless' ond heb ofyn am dderbynneb. Mae'n rhaid bod eu cof yn well nag un fi!? Cofiwch hefyd archwilio'ch cyfrif banc cyn ei daflu i'r bin. Rwy'n dal o'r farn fod yna le i'r garden blastig a'r arian parod ond pwy a wŷr?!



Diolch yn fawr iawn, John, am ateb y cwestiynau. Ac un cwestiwn i chi'r darllenwyr ar y diwedd fel hyn – Tybed a ydych chi'n cofio ble roeddech chi ar 15 Chwefror 1971?

JOHN MEREDITH YN EIN HERIO!

Beth am roi cynnig arni?



1	Beth oedd darnau arian degol cyntaf Gwledydd Prydain?	
2	Pa wlad arall aeth yn ddegol ar yr un diwrnod â Gwledydd Prydain?	
3	Beth ddigwyddodd i'r papurau £1 wedi i ni fynd yn ddegol?	
4	Pa ddarn yn yr hen arian a gafodd ei dynnu o gylchrediad ym 1980?	
5	Am ba reswm y rhyddhaodd y Bathdy Brenhinol ddarn 50c arbennig ym 1973?	
6	Pa ddarnau arian degol oedd mewn cylchrediad cyn i ni fynd yn ddegol?	
7	Pa wlad oedd y gyntaf i gyflwyno arian degol?	
8	Ers pryd mae'r Bathdy Brenhinol, ble mae arian y DU yn cael ei greu, wedi ei leoli yn Llantrisant?	

Gweler Tudalen 43 am yr atebion!

Mwy o gwestiynau yn ein rhifyn nesaf!

PLAS-Y-DDERWEN

Hamper a gyflwynwyd i Gartref Plas-y-Dderwen yn cynnwys cerdyn personol i bob preswylwr (58 ohonynt) ynghyd â nwyddau crefft, llyfrau croeseiriau a siocled.



GWASANAETHAU DIGIDOL MIS CHWEFROR



Dydd Sul 7 Chwefror 2021

Cymdeithas a Gweddi

Cafwyd sgwrs ddifyr ar ddechrau mis newydd am hwn a'r llall a'r Dr Huw Michael yn sôn am ei brofiad o weld hebog tramor ar ben tŵr Eglwys Dewi Sant yn y dref – golygfa anghyffredin iawn yma yng Nghaerfyrddin, mae'n debyg. Diolch i Olive Lloyd am ddarllen Salm 121 (Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd) ac i Beti-Wyn am ein harwain mewn gweddi wedi iddi sôn fel y gallwn ninnau gael ein hysbrydoli wrth addasu'n ffordd o fyw yn ein sefyllfa bresennol gan sgiliau goroesi'r anturiaethwr Bear Gryll yn ceisio ymrafael â phob math o wahanol heriau a thrybini.

Yr Oedfa Gymun Ddigidol

Roedd yr oedfa yng ngofal ein Gweinidog gyda chymorth Elen Marks (Y Priordy) (Darlleniad – Mathew 11: 25-30) a Margaret Evans (Bancyfelin) (Darlleniad Ioan 16: 25-33). Yn ei myfyrdod wrth arwain at y Cymun mynegodd ein Gweinidog fel mae bywyd pob un ohonom yn gallu bod yn hynod lawn a phrysur a digon cymhleth yn ystod y cyfnod clo, gan sugno'n nerth a pheri i ni hefyd esgeulso rhai pethau, yn enwedig ein bywyd ysbrydol. Mae'n bywyd yn gallu troi'n faich ac arwain at flinder meddyliol a chorfforol. Y newyddion da yw bod Duw trwy lesu wedi trechu'r gelyn pennaf ac yn fwy nag abl i'n rhyddhau rhag cario beichiau'r byd. Fe'n gwahoddodd i ymdawelu ac oedi wrth Fwrdd y Cymun a chyfeirio'n meddyliau at Galfaria i weld o'r newydd gariad Duw tuag atom, y cariad mawr hwnnw sy'n cynnig gorffwysra i bawb sy'n flinderog ac yn llwythog. Ein braint wedyn oedd cael cydgymuno â'n Gweinidog a rhannu gweddi gyda'n gilydd.



Dydd Sul 14 Chwefror 2021

Cymdeithas a Gweddi

Doedd dim prinder pynciau i'w trafod ar y diwrnod arbennig hwn. Roedd hi'n Ddydd San Ffolant (er mai'r Santes Dwynwen yw nawddsant cariadon Cymru) a hefyd yn Sul y Gweddnewidiad, sef y Sul o flaen y Grawys a chyda hynny mewn cof darllenodd ein Gweinidog adnodau o 9 Marc. Ar fynydd y gweddnewidiad dymuniad y disgyblion oedd aros yng nghwmni Iesu, ond byr fu profiad pen y mynydd. Yn ei gwmni ef, fodd bynnag, aethant rhagddynt ar eu taith yn y byd islaw'n gadarnach eu ffydd ac yn fwy clir eu gweledigaeth.

Yr Oedfa Ddigidol

Y Gegin yng nghartref Beti-Wyn oedd y cefndir i'r oedfa a hynny'n awryddocaol iawn. Roedd Dydd Mawrth Ynyd ar y gorwel, wrth gwrs – sef diwrnod pancos neu ffroes, ond hefyd ddechrau Tymor y Grawys! Clywsom am arwyddocâd crefyddol symbolaeth Dydd Mawrth Ynyd a'r dyfnder sydd i ystyr a phwysigrwydd y Grawys. Mae'n dechrau ar Ddydd Mercher y Lludw ac yn dod i ben tua chwe wythnos yn ddiweddarach, cyn Sul y Pasg. Mae'r cyfnod yn ein hatgoffa o'r 40 niwrnod a dreuliodd Iesu yn yr anialwch yn cael ei demtio gan y Diafol. Er yn wannach yn gorfforol daeth Iesu allan o'r sefyllfa hon yn gryfach yn ysbrydol gan ddod drwy Galfaria'n goncwerwr ar ddiabol, cnawd a byd. Mae'r Grawys hwn ynghanol clo'n wahanol i'r arfer ond eto'n gyfle i ni gymryd stoc, edrych ar ein hunain a cheisio nesáu at Dduw ac ymwroli o'r newydd i ddilyn Iesu. Mae'n golygu llawer mwy na phancos a ffroes. Cyflwynwyd y weddi gan Elin Wyn.



Dydd Sul 21 Chwefror 2021

Cymdeithas a Gweddi

Roedd hi'n Sul cyntaf y Grawys ac yn dilyn y sgwrsio difyr arferol cawsom wybod mwy am y cyfnod hwn gan ein Gweinidog – fel y treuliodd Iesu amser yn ymryddio yn yr anialwch a chael ei demtio gan Satan ac fel mae llawer o Gristnogion yn hunanddisgyblu ac yn ymrwymo i ymryddio ac ildio danteithion a moethusrwydd er mwyn adlewyrchu aberth Iesu. Roedd Iesu'n

ceisio llonyddwch yn yr anialwch a dod yn agosach at Dduw. A boed ni'n ymptydio ai peidio mae'n bwysig i ni geisio canfod munudau o dawelwch yn ddyddiol i'n galluogi i droi at Dduw mewn gweddi ynghanol prysurdeb a rhuthr ein bywyd yn byd cyfoes.

Yr Oedfa Ddigidol

Roedd yr oedfa yng ngofal ein Gweinidog a thraddodwyd y myfyrdod gan Tudur Dylan Jones. Cyflwynodd Luned Voyle Thomas (Y Priordy) y darlleniad (Luc 19: 1-10 - Hanes Sacheus) a Joanne Richards (Bancyfelin) a Rhian Bowen (Cana) y weddi. Yn y myfyrdod clywsom am arwyddocâd mis Chwefror 'y mis bach' - mis lleia'r flwyddyn. Mae'n fis, serch hynny, pan ydym yn dechrau gweld arwyddion o bethau mwy - tyfiant y gwanwyn a boreau a nosweithiau goleuach. Mae'r mis bach wedi esgor ar bethau mawr ac allweddol, er enghraifft yn hanes Cymru. A dewis gweld y person bach a wnaeth lesu, fel yn hanes Sacheus yn y darlleniad. Mae lesu hefyd bob amser yn agor ei fynwes i dderbyn plant bychain. Mae Chwefror yn ein helpu i ddod i sylweddoli pa mor allweddol yw'r pethau bychain – a hynny'n ymestyn i mewn i fis Mawrth wrth i ni gofio'r geiriau a ynganwyd gan Dewi Sant ychydig cyn ei farw – 'Gwnewch y pethau bychain'.

Dydd Sul, 28 Chwefror 2021

Cymdeithas a Gweddi

Hyfrydwch unwaith eto oedd cael y cyfle i gwrdd â'n gilydd ar ddechrau Sul newydd cyn ymuno â'r oedfa. Roeddem ar drothwy Gŵyl ein Nawddsant a Diwrnod Eiriol dros Gymru. Darllenodd ein Gweinidog adnodau o Salm 117 (Molwch yr Arglwydd) a chlywsom fel mae Duw wedi ordeinio'r holl genhedloedd a rhoddi iddynt bwrpas arbennig. Mae pob cenedl yn offeryn yn nwylo Duw, beth bynnag yw ei maint. Mae posibiliadau mawr i genedl fach fel Cymru dan arweiniad lesu. Cofiw'n fel y llwyddodd criw bach o ddisgyblion yn enw lesu i drawsffurfio'r byd a'n hannog ni i gyd, yn bobloedd y byd, i gydfyw'n ddedwydd â'n gilydd.

Gwasanaeth Gŵyl Dewi Digidol ar gyfer y Dref.

Gweler adroddiad mewn man arall yn y papur hwn.

Philip a Meril Davies....

GAIR O NEW JERSEY

Cyfarchion o Scotch Plains, New Jersey, sydd ugain milltir o ddinas Efrog Newydd a'r un pellter o lan yr Iwerydd. Mae'r dalaith a Chymru yn gymharol eu maint, a phoblogaeth o dros naw miliwn. Mae'r New Jersey yn cael ei chydabod fel y "Garden State" am ei hamaethyddiaeth, yn



tyfu llysiau o bob math, ac yn enwog ar draws America am ei thomatos mawr, melys.

Dyma ble rydym wedi cartrefu ers 1975, ond, mae'n gwreiddiau'n dal yn ddwfn yn sir Gaerfyrddin.

Cymraeg yw iaith yr aelwyd. Plant

cefn gwlad yw'r ddau ohonom. Philip yn enedigol o fferm ar lan y Tywi a Meril o fferm ar lan y Gwendraeth Fach. Amaethwyr oedd y teuluoedd i gyd, ond glöwyr yng Nghwm Gwendraeth ar ochr mam Meril cyn iddynt ddechrau chwarel galch rhwng Crwbin a Phorthyrhyd. Un darn o hanes teuluol cynnar. Yn 1870 ymfudodd hen dad-cu Meril a'i gefnder i weithio yn y gweithfeydd glo yn Scranton, Pennsylvania. Un diwrnod dywedodd y cefnder wrth fy hen dad-cu '*Fi'n mynd adre*'. '*Fi hefyd*', meddai fy hen dad-cu, a dyna'r ddau ar y llong nesa 'nöl i Gymru a dim mentro ymhell o Bontyberem byth wedyn. Pwy fyddai'n meddwl y byddai Meril yn ymfudo gan mlynedd yn hwyrach?

Fe ddaethom i'r wlad hon am ddwy flynedd yn 1968 er mwyn i Philip wneud gwaith ymchwil ym mhrifysgol feddygol Efrog Newydd. Dyna beth oedd newidiaeth, o glos ffarm yn Sir Gâr i ganol y ddinas ddigwsg. Fe symudom yn ôl i Brydain yn 1970, am byth. Ond nid felly y bu! Setlo i lawr yn Llundain a dechrau teulu. Dyna lle ganwyd ein meibion, Ian a Graham. Yn 1975 daeth cynnig i Philip i fynd yn ôl i UDA i wneud rhagor o waith ymchwil. Roedd Ian a Graham erbyn hyn yn dair a phedair mlwydd oed ac yn rhugl yn eu mamiaith drwy gwmni a chymuned o bedwar teulu Cymreig yn Llundain. Y dechreuad yna yw'r rheswm fod y ddau wedi cadw'r iaith. Ymfudom ar draws yr Iwerydd ar y QE2, a mam-gu a dad-cu gyda ni er

mwyn iddynt gael gweld ymhle y byddem yn ymgartrefu. Yn y blynyddoedd canlynol fe dreuliom fis Awst ymysg y teulu yng Nghymru. Mwynhau triplau ar fws wncwl Aeron (Bysus Williams, Tymbl) dros wyliau'r glöwyr. Ond yr uchafbwynt i'r bechgyn oedd mynd i'r mart gyda thad-cu.

Yn 1986 daeth llawenydd mawr i'r teulu i gyd drwy enedigaeth ein merch Carys. Chwaer a chyfnither i chwech o fechgyn. Mae mwy o ferched yn y teulu erbyn hyn, sef tair wyres, Eleri, Reese a Seren. Rydym yn lwcus dros ben fod ein plant yn byw'n gyfagos. Iau a'r teulu lai na hanner awr oddi wrthom sydd yn galluogi mam-gu a dad-cu i gael y merched i sefyll dros nos bob penwythnos. Mae Graham yn gweithio a byw yn Efrog Newydd ond yn medru dianc i'w dŷ yn ardal mynyddoedd y Catskills dros y penwythnos. Mae Carys â'i gwaith yn Philadelphia ond ar hyn o bryd yn gweithio'n rhithiol o New Haven, Connecticut, lle mae ei darpar ŵr Kiley yn llawfeddyg. Mae'n fendith fawr eu bod nhw i gyd o fewn cyrraedd yn y flwyddyn ofidus hon, ac yn sicrhau ein bod ni'n ddiogel, yn iach, a bod digon o fwyd yn y pantri a'r oergell!

Felly, beth ddaeth â ni i Gapel Heol Awst ar fore dydd Gŵyl Dewi 2020? I Peter a Meinir Hughes Griffiths mae'r diolch am ein gwahodd i'r oedfa. Fe all Peter esbonio beth yw'r berthynas deuluol. Pam mae hwn oedd y tro cyntaf i ni fod yng Ngymru ar ddydd yr Ŵyl? Y rheswm pennaf yw ein bod ni'n brysur yn dathlu Gŵyl Dewi yma ac wedi bod yn gyfrifol am Ginio Gŵyl Dewi Sant Central New Jersey am flynyddoedd. Bu **Menna Elfyn** yn sefyll gyda ni ac yn ein diddanu wrth ddathlu'r Ŵyl yn eglwys St John's on the Mountain yn 2013 a Mari Morgan yn arwain y Gymanfa. Bu Meril yn coginio cawl cennin i bedwar ugain o bobol a dyna pryd ysgrifennodd Menna y deyrnged hon:



I Meril

*Sul cawl yw'n hawl ni heddi - yn ginio
o gennin gŵyl Dewi,
i'n cynnal gyda'r canu
yn nydd ein nawdd sant ni;
gwnewch y pethau bychain
ond pwy sydd ar ôl
i wneud y pethau mawr?*

Erbyn hyn rydym yn dra ymwybodol pa mor unigryw a gwerthfawr yw ein Cymreictod. Yn rhyfeddol, yn ein barn ni, mae byw y tu allan i Gymru'n ein gwneud i werthfawrogi'n hetifeddiaeth a'n treftadaeth yn fwy na phe baen ni heb fynd oddi cartref. Gwasgaredig iawn yw ein cydnabyddion ni sydd yn wreiddiol o Gymru. Er hynny, mae nifer o fudiadau a chymdeithasau i'n cysylltu. Yn Efrog Newydd mae oedfa Gymreig ar yr ail Sul bob mis yng nghapel Rutgers. Yn ystod y flwyddyn fe gynhelir yno Noson Lawen, darlleniad o Under Milk Wood, cinio Gŵyl Dewi a Chymanfa Ganu. Mae'r oedfaon wedi cael eu cynnal ar Zoom yn ddiweddar a nifer o Gymry yn y gynulleidfa rithiol. Mae derbyn cyflwyniad eich oedfa o'r Priordy ar fore Sul yn bleser bendithiol.

Dros y blynyddoedd rydym wedi dod yn fwy gweithgar mewn rhai o'n hamryw fudiadau Cymreig. Mae Ninnau a'r Drych, www.ninnau.com, papur yn llawn o newyddion am bobl a digwyddiadau ddwy ochr yr Iwerydd, yn cael ei gyhoeddi bob deufis. Pleser yw cynorthwyo'r Awdur a'r Golygydd, Dr. Megan Williams, sydd wedi bod mor llwyddianus wrth gymryd drosodd mantell Arturo ac Olga Roberts. Mae'r papur yn allweddol i roi poblogrwydd i'r mudiadau niferus sydd yn cyfrannu at fywyd ein cymuned Gymreig. Un ohonynt yw Sefydliad Cymru Gogledd America (nawalesfoundation.org) sydd yn pontio'r Iwerydd drwy gynorthwyo a chynghori myfyrwyr i astudio a dechrau eu gyrfa yng Nghymru. Cyfraniad arall, sydd wedi dod yn dra phoblogaidd, yw ein gwahoddiad i enillydd rhuban glas Osborne Roberts berfformio ar lwyfan Gŵyl Gymraeg Gogledd America. Rydym yn ymuno gyda nifer o sefydliadau eraill o Ogledd America (cymrygogleddamerica.org) i ddod i gynnal stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymyl stondinau ein cyfeillion o'r Ariannin a mudiad Cymru a'r Byd. Trowch i mewn yn y dyfofol i ddweud helo pan ddaw'r Eisteddfod i'w chynnal eto. Mae'n wythnos fendigedig, ond tra blinedig! Mae rhan helaeth o'n amser bob haf yn mynd i baratoi ein cyfraniadau i'r Eisteddfod Genedlaethol ac i'n Gŵyl yma ddechrau mis Medi – un o bleserau o fod yn Gymry ar Wasgar!



Ryn ni'n mwynhau croesawu aelodau o'r teulu a ffrindiau o bob cwr o'r byd i'n haelwyd yn Scotch Plains. Mawr obeithiwn y cawn gyfle i'ch croesawu chithau yr ochr hon i'r Iwerydd yn y blynyddoedd i ddod.

Diolch o galon i Philip a Meril am yr erthygl ddiddorol hon a'n cofion cynnes atynt.

YR IAU'N CYNNIG LLYGEDYN O OBAITH?

TYBED faint o ffydd sy gyda chi mewn arolygon barn? Maent yn cael eu dilorni'n aml, yn enwedig gan ambell wleidydd.

Rhybuddiwyd ni gan un gohebydd adnabyddus beth amser yn ôl i gofio'r tro nesaf y byddem yn clywed gwleidydd yn rhacso rhyw arolwg neu'i gilydd na fyddai'r pleidiau'n gwario cannoedd o fiiloedd o bunnau ar eu harolygon eu hunain pe na baent yn credu bod gwerth mewn gwneud!

Wedi dweud hynny, mae'n talu ffordd i fod yn ofalus iawn ac ystyried ffynhonnell a thrylwyredd arolygon wrth eu dadansoddi a dod i gasgliad.



Cwmni dadansoddi data ac ymchwil farchnata seiliedig ar y rhyngrwyd yw YouGov. Mae'n cynnal arolygon ar raddfa eang iawn.

Cynhaliodd arolwg ddiwedd Tachwedd 2020 pan ofynnodd i 2169 o bobl am eu ffydd. Mae darllen deilliannau arolygon fel hyn yn gallu bod yn brofiad digon diflas i Gristnogion y dyddiau hyn ac, ar sawl ystyr, nid yw'r un hwn yn eithriad. Mae'n canfod fod credo ysbrydol a chrefyddol ym Mhrydain wedi dirywio yn ystod y pandemig gyda chanran y bobl yn crybwyll ffydd mewn Duw neu ryw fath o 'rym ysbrydol uwch' yn gostwng o 49% i 44% rhwng Ionawr a Thachwedd y llynedd. Dros yr un cyfnod bu cynnydd yng nghanran yr amheuwyr a'r anffyddwyr o 51% i 56%.

Yn ôl yr arolwg, y rhai dros 60 oedd y mwyaf crefyddol, gyda 36% yn dweud eu bod yn credu yn Nuw. Roedd y ganran yn gostwng i 26% yn yr ystod oedran 40-56 ac i 19% yn yr ystod oedran 25 -39.

Ond efallai mai'r hyn sy'n arwyddocaol yw'r cynnydd a fu yng nghanran y grŵp oedran ieuengaf - 16-24 - sy'n credu yn Nuw. Y ganran oedd 23%. Yn Ionawr 2020, roedd yn 21% ond bod y grŵp oedran y pryd hwnnw ychydig yn fwy cyfyng

sef 18-24. Serch hynny, mae'r ganran ddiweddaraf (23%) yn uwch na'r tri thro diwethaf i YouGov ofyn y cwestiwn i'r oedran ieuengaf - yn Awst 2019 ac yn Ionawr ac Awst 2020, Ar yr achlysuron hynny y grŵp oedran hwn oedd yr un lleiaf crefyddol.

Tybed a yw hyn yn awgrymu fod y duedd i ystyried y grŵp oedran ieuengaf yr un lleiaf crefyddol yn newid?

Mae'r **Athro Linda Woodhead** o Brifysgol Caerhirfryn yn un o ddadansoddwyr mwyaf blaenllaw crefydd a chred gyfoes. Ym mis Tachwedd 2020 bu'n traddodi Darlith Flynyddol Morlan-Pant-y-fedwen pan fu'n rhannu canfyddiadau prosiect ymchwil diweddar a gynhaliwyd i edrych yn benodol ar werthoedd y genhedlaeth ôl-filflwydd, a sut mae'r gwerthoedd hynny'n dylanwadu ar eu bywydau a chymunedau heddiw.



Wrth ymateb i arolwg YouGov dywedodd fod pobl ifainc yn wynebu llai o stigma'r dyddiau hyn ynghylch eu credo crefyddol. Mae'n gwybod oddi wrth ei myfyrwyr fod y rhyngrwyd wedi gwneud pethau'n haws i chwilo a chanfod cymheiriaid neu bobl debyg i chi. Mae'n codi cwestiwn cymdeithasegol hynod o ddiddorol. Tybed a fydd y rhyngrwyd yn gwneud cyswllt cymar-i-gymar yn ffactor mwy pwysig na rhieni'n trosglwyddo o ran bod yn grefyddol?



Mae arbenigwr arall, **Lois Lee**, Cymrawd yn yr Adran Astudiaethau Crefydd ym Mhrifysgol Caint, yn cydnabod ei bod yn debygol iawn fod y pandemig wedi dylanwadu ar gredoau ac arferion hanfodol pobl ond dyw hi ddim wedi'i hargyhoeddi eto y bydd hyn wedi gwneud un grŵp yn fwy neu'n llai crefyddol yn yr hirdymor.

Amser a ddengys!

Y CAPEL WEDI'I ADDURNO AR GYFER GŴYL DEWI



DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Mawrth		Ebrill	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Emlyn Schiavone	Huw Jones	Catrin H Jones	Huw Michael




CYHOEDDWR



Mawrth	Philip Jones	Ebrill	Huw Michael
--------	--------------	--------	-------------

COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYIS



Y DDIWEDDAR IRIS GRIFFITHS

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Iris Griffiths, a fu farw yn Ysbyty Glangwili ar 28 Ionawr 2021. Yn enedigol o Langynnog, magwyd ynddi ddiddordeb ym myd nyrsio yn ifanc iawn pan welodd ei mam-gu yn taenu'i gofal dros nifer o drigolion y pentref, a hefyd yn gofalu am ei thad-cu yn ei waeledd.

Cafodd ei hyfforddi yn Ysbyty Glangwili cyn symud i nyrsio yn Llundain a mentro ar antur fawr a hwyllo i Newfoundland am flwyddyn cyn mynd ymlaen i Aklavik yn ngogledd Canada, 120 milltir o'r cylch Artig.

Bu'n nyrsio yno o dan dawdd Eglwys Anglicanaidd Canada a chafodd brofiadau rhyfeddol ymhlith yr Indiaid a'r Inuit – y rhan fwyaf ohonynt yn dioddef o TB. Symudodd wedyn i Pangnirtung ar Baffin Island. Wedi blynyddoedd o wasanaeth yn llawn profiadau unigryw a chofiadwy, dychwelodd adre ac yn dilyn hyfforddiant pellach, gwethiodd fel bydwraig yn Llundain, Bryste a Chaerrfaddon tan ei hymddeoliad ym 1986.

Treuliodd flynyddoedd hapus iawn yn rhan o'r gymdogeth yn Nôl yr Abaty, Caerfyrddin, cyn symud i Dŷ Rhys ac yna Gartref Plas y Dderwen lle derbyniodd ofal ardderchog. Roedd bob amser yn bresennol yn yr oedfaon ym Mhlas y Dderwen ac yn falch o dorri gair ag aelodau'r Priordy ar ein hymweliadau.

Roedd Iris yn bresenoldeb tawel ond hynod o ffyddlon yn y Priordy. Gwerthfawrogai oedfa'n fawr. Cysegrodd ei bywyd mewn gwasanaeth i eraill, a hynny yn enw ei Harglwydd.

Coffa da iawn am wraig a gyfrannodd gymaint.

Cynhaliwyd oedfa yn Amlosgfa Parc Gwyn ar 10 Chwefror 2021 i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog. Roedd yr angladd yn breifat yn unol â'r cyfyngiadau presennol, ond diolch i'r rhai ohonoch a ymunodd â'r oedfa dros y we. Rhoddwyd ei llwch i orwedd ym medd ei rhieni ym mynwent Capel Ebeneser, Llangynnog, yn ôl ei dymuniad.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i chwaer yng nghyfraith, ei neiaint a'i nithod a fu'n mawr eu gofal ohoni.

Ein Gweinidog



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig Mari Jenkins a Sioned Phillips sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Yn y golofn olygyddol mewn rhifyn diweddar o'r **Tyst** bu'n Gweinidog yn trafod Galaru a'r ffordd mae'r pandemig wedi effeithio arno'n gyffredinol. A dyma destun y cafodd hefyd ei holi amdano ar **Newyddion S4C** un noson.

Derbyniodd Beti-Wyn wahoddiad i siarad â grŵp o fyfyrwyr sy'n paratoi ar gyfer yr offeiriadaeth yn Athrofa San Padarn, Coleg San Mihangel, Llandaf, Caerdydd ar bwysigrwydd y Gymraeg yn y weinidogaeth. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi penodi Swyddog i hybu'r Gymraeg, sef Rachel Settatee. Hi sy'n trefnu'r sesiynau hyn

Bu Plant yr Ysgol Sul wrthi'n ddyfal yn paratoi cardiau cyfarch i'w danfon at aelodau'r eglwys sy'n hunanynysu'r dyddiau hyn. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw. Mae'r cardiau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn codi calon! Fe welwch luniau yn y rhifyn hwn.

Ailddarlledwyd y rhaglen y bu Beti-Wyn yn ei chyflwyno ar gyfer **Caniadaeth y Cysegr Gŵyl Dewi 2020** unwaith eto eleni ar **Radio Cymru** ar Ddydd Sul 28 Chwefror.



Clywyd Mared Owen a Sara Llwyd James yn canu *O Llefara addfwyn Iesu* yn un o raglenni **Caniadaeth y Cysegr** pan fu R Alun Evans yn cyflwyno emynau ar y thema *Maddeuant*. Clywyd y datganiad o'r emyn yn wreiddiol ar dôn gan Robat Arwyn ac i gyfeliant Meinir Lloyd yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn y Priordy i nodi tri chanmlwyddiant geni William Williams Pantycelyn.

Bu Catrin Haf Williams yn adolygu'r papurau a'r gwefannau ar **Raglen Dewi Llwyd ar Fore Sul ar Radio Cymru** ac Elinor Wyn Reynolds ar yr un rhaglen yn adolygu tair cyfrol, sef *Llechi* gan Manon Steffan Ros, *Castell Siwgr* gan Angharad Tomos a *Mynd* gan Marged Tudur. Bu Beti-Wyn yn un o westeion John Roberts ar **Bwrw'r Sul ar Radio Cymru** yn sôn am y paratoadau eleni ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd a'r

dathlu'n digwydd yn rhithiol y tro hwn ar y Dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth.

I GLOI - Llongyfarchiadau mawr i Siwan Jones ar ennill y drydedd wobwr mewn cystadleuaeth newydd o'r enw **Cân o Gymru** a drefnwyd gan *The Welsh North America Association* mewn partneriaeth gydag *Undeb Cymru a'r Byd*. Ardderchog!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i'n
Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Eleri a Lowri Williams, Llangain, ar golli'u mam-gu, sef Sarah Margaret Williams, Caerfyrddin a Pheniel gynt, ar 22 Ionawr 2021. Meddyliwn am ei mab David, a'i hŵyr Jamie, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Mynegwn ein cydymdeimlad â Henry a Bronwen Wilkins ar golli modryb Henry, sef Gwenville May Thomas, Caerfyrddin ar 6 Chwefror 2021. Mae'n meddyliau hefyd gyda Delyth, ei merch, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

Atebion y Cwis Arian

1. 1/2c 1c 2g 5c 10c 50c 2. Iwerddon 3. Dim byd 4 Chwe cheiniog 5 Gwledydd Prydain yn ymuno â'r Farchnad Gyffredin 6 5c 10 50c 7 Rwsia 8 !968

PWY YW'R NAWDDSANT?

ATEBION

1. Sant Ffransis o Asisi 2. Sant Luc 3. Sant Isidore o Seville
4. Santes Dwynwen / Sain Folant 5. Sant Denis
6. Sant Cadog 7. Sant Cristoffer 8. Sant Sebastian
9. Santes Cecilia 10. Sant Gwynllyw

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Dr Huw Michael, Philip a Meril Davies a Theuluoedd yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn.





Y SULLADUR



Mawrth	7	Bore	Oedfa Gymun Ddigidol gyda'n Gweinidog	C
<i>Sul y Mamau</i>	14	Bore	Oedfa Deulu Ddigidol gyda'n Gweinidog	
	21	Bore	Oedfa Deulu Ddigidol gyda'n Gweinidog	
<i>Sul y Blodau</i>	28	Bore	Oedfa Deulu Ddigidol gyda'n Gweinidog	

Nos Iau Cablyd
Oedfa Gymun Ddigidol am 7 gyda'r Parchedig Peter Cutts

Dydd Gwener y Groglith
Oedfa Ddigidol am 10 gyda'n Gweinidog

Ebrill <i>Sul y Pasgl</i>	4	Bore	Oedfa Gymun i'r Ofalaeth dros Zoom am 10 Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gyda'n Gweinidog am 10.30	C
	11	Bore	Oedfa gyda'r Parchedig Guto Prys ap Gwynfor	
	18	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog	
	25	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog a PIP yn arwain	

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu
Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul. Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau.				
--	--	--	--	--

DALIER SYLW

Rhown wybod am unrhyw newidiadau i'r
Suliadur mewn da bryd.

